

Mae Llawr Sglefrio Caernarfon yn cael ei weithredu gan Hwb Caernarfon gyda Galeri Caernarfon Cyf yn gweithredu fel asiant gwerthu tocynnau yn unig.

Dyma delerau ac amodau pan yn archebu eich tocynnau ar gyfer y llawr sglefrio:

Eich Tocynnau

Wrth archebu ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n archebu'ch tocynnau gan ddefnyddio'ch cyfrif eich hun. Ni fydd Hwb Caernarfon yn gyfrifol am docynnau a brynir gan ddefnyddio cyfrif cwsmer arall.

Mae Hwb Caernarfon yn cadw'r hawl i wrthod mynediad deiliad y tocyn i'r llawr sglefrio a ni fyddwn yn cymryd cyfrifoldeb am archebion wedi'u dyblygu. Peidiwch â gwneud na dosbarthu sawl copi gan mai dim ond y person cyntaf i adbrynu'ch archeb wrth ein desg docynnau yn y babell fdd yn cael mynediad ar y llawr sglefrio.

Ni ellir trosglwyddo tocynnau a ni chaniateir eu gwerthu am brisiau chwyddedig.

Mae Hwb Caernarfon yn cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer y tocynnau sydd ar werth i unigolion os bydd angen.

Ar ôl eu prynu, ni chaniateir cyfnewid nac ad-dalu tocynnau.

Sicrhewch fod tocynnau cywir yn cael eu prynu ar gyfer yr oedran cywir, bydd dewis oedran yn anghywir yn golygu bod y tocyn yn annilys. Rydym yn cadw'r hawl i wirio oedrannau wrth fynd i mewn, ac yn gwrthod unrhyw docynnau annilys.

Nid yw Hwb Caernarfon yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am docynnau a brynir trwy drydydd parti, gan gynnwys unigolion sy'n prynu ar ran grŵp.

Dim ond tocynnau swyddogol drwy Galeri sy'n ddilys i'w derbyn i sesiwn.

Mae angen tocynnau ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu sesiwn. Efallai y bydd cyfyngiadau oedran ar rai sesiynau, gwiriwch am unrhyw gyfyngiadau cyn prynu'ch tocynnau.

Mae Hwb Caernarfon yn cadw'r hawl i hyrwyddo cynnigion arbennig yn ychwanegol i'r rhai a gyhoeddir yn y deunyddiau marchnata (print/ar-lein). Ni ellir defnyddio rhai ar ôl archebu – gan bod cyfyngiadau am fod ar unrhyw gynnigion penodol.

Os fydd cwsmeriaid yn rhedeg yn hwyr ar gyfer y sesiwn, gellir ymuno unrhyw amser yn ystod y sesien 45 munud (ond yn amlwg yn colli amser ar y llawr sglefrio). Ni fyddwn yn cynnig gostyngiad ar bris y tocyn/sesiwn.

Eich Ymweliad

Mae Hwb Caernarfon yn cadw'r hawl i wrthod mynediad deiliad y tocyn i'r adeilad a newid manylion yr amserlen heb rybudd.

Caniateir defnyddio camerâu yn y babell, ond mae Hwb Caernarfon yn cadw'r hawl i weld y lluniau a dileu lluniau yn ôl eu disgrisiwn. NI chaniateir defnyddio camera/ffonau symudol wrth sglefrio.

Rhaid i blant dan 8 oed fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol (dros 16 oed). Y gymhareb ofynnol o oedolion i blant yw 1 oedolyn: 3 phlentyn.

Ni oddefir unrhyw fath o ymddygiad anghyfreithlon, treisgar neu fygythiol tuag at staff, cyd-sglefrwyr neu aelodau'r cyhoedd.

Ni ddylid yfed unrhyw alcohol ar y llawr sglefrio nac o'i gwmpas, ac ni chaniateir i'r rhai sydd o dan ddylanwad alcohol gymryd rhan mewn unrhyw sesiwn.

Mae Diogelwch Rinc yn berthnasol bob amser.

Nid yw Hwb Caernarfon yn derbyn cyfrifoldeb am eiddo personol ar y safle.

Mae Hwb Caernarfon yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Fodd bynnag, fel gyda phob gwasanaeth, gall problemau annisgwyl godi ac efallai y bydd angen canslo eich sesiwn. Os yw hyn yn wir, bydd Hwb Caernarfon yn cysylltu â chi i'ch hysbysu am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar eich archeb cyn gynted ag y byddwn yn ymwybodol o unrhyw broblemau sy'n codi. Yn yr achos hwn, cynigir sesiwn arall i gwsemriaid (lle bo hynny'n bosib) neu rhoddir ad-daliad llawn.

Trwy fynd i mewn i'r lleoliad rydych chi'n rhoi eich caniatâd i gael tynnu eich lluniau/fideo tra yn y babell ac ar y llawr sglefrio. Byddwn yn defnyddio ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo'r digwyddiad.

Mae teledu cylch cyfyng ar y safle -defnyddir at ddibenion atal a chanfod troseddau.

Rydyn ni am i chi gael profiad gwych tra'n ymweld a ni. Er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaeth, cynnig sylwadau neu os ose gennych unrhyw gwynion: touristinformation@hwbcarnarfon.cymru

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon penodol ynghylch ein telerau ac amodau, cysylltwch â HWB Caernarfon ar 01286 875632 bydd un o'n staff yn hapus i helpu!

Diogelu Data

Bydd data personol a gyflenwir gan perchenog y cerdyn yn cael ei gadw a'i brosesu gan gyfrifiadur neu fel arall gan Galeri ar ran Hwb Caernarfon i weithredu cyfrif perchenog y cerdyn; i gadarnhau, diweddarau a gwella cofnodion cwsmeriaid Hwb Caernarfon; ar gyfer dadansoddiad ystadegol; a sefydlu hunaniaeth unrhyw berchenog y cerdyn.

Gall Hwb Caernarfon ddefnyddio'r wybodaeth am y cwsmeriaid i'w hysbysu am ddigwyddiadau all fod o ddiddordeb yn y dyfodol.

Gall Hwb Caernarfon gysylltu â perchenog cardiau gan ddefnyddio unrhyw un o'r manylion cyswllt a ddarperir.

Mae gan y cwsmer hawl dad-danysgrifio ar unrhyw ebyst yn y dyfodol (bydd opsiwn ar waelod ebyst).

Cyffredinol

Trefnwyr y digwyddiad hwn yw Hwb Caernarfon Limited, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda Rhif Cwmni 99599600. Cyfeiriad yng Nghanolfan Gwybodaeth i Dwristiaid Caernarfon C / O, Castle Street, Caernarfon. LL55 2AY.